Cronfa Loteri Fawr

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol

A ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006



| | |
|---|---|
| | Hydref, 2006 |
| **Côd** | |
| **Hawlfraint** | © Big Lottery Fund, 2005 |
| **Cynllun** | Graphicsi.com |
| **Argraffu** | Belmont Press |
| **Copïau:** | Ceir rhagor o gopïau trwy ffonio: 0845 4 10 20 30 quoting the references given above:<br>Neu anfonwch ebost atom yn ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk |
| | Ffôn testun 0845 0390204 |
| | 8am to 6pm Monday to Friday. |
| | Hefyd ar gael ar eich cais mewn Braille, casét sain, ar ddisg mewn print bras, Saesneg ac ieithoedd cymunedol |
| **Rydym yn poeni am yr amgylchedd** | Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig |
| **Ein hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal** | Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymroi i werthfawrogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau a chyflogwr. Nod y Gronfa Loteri Fawr yw gweithredu'n gynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a deiliaid grantiau, budd-ddeiliaid, ceiswyr swyddi a'n staff yn cael eu trin yn deg. Mae pob aelod o'n staff ac aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal a gweithredu ein polisi cydraddoldeb |
| | Cronfa Loteri Fawr yw'r enw a ddefnyddir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (a oedd yn dosbarthu grantiau dan enw'r Gronfa Gymunedol) wrth weithredu ar y cyd |

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

# Cronfa Cyfleoedd Newydd

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL

## A ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol yn unol ag adran 34(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998) gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Paratowyd a chyflwynwyd y cyfrifon yn unol ag Adran 43D(4) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998) gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 31 Hydref 2006.

Cyflwynwyd gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban ar 31 Hydref 2006.

HC 1598 London: The Stationery Office £32.50.

SE/2006/202

© Crown Copyright 2006
The text in this document (excluding any Royal Arms and departmental logos) may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is reproduced accurately and not used in a misleading context. The material must be acknowledged as Crown copyright and the title of the document specified.
Any queries relating to the copyright in this document should be addressed to
The Licensing Division, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ.
Fax: 01603 723000 or e-mail: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk.

# Cronfa Cyfleoedd Newydd

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a Chyfeiriadau Polisi 2005/06

### Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | | 2 |
| Adran 1 | Amdanom ni, ein fframwaith a'r hyn rydym yn ei wneud | 6 |
| Adran 2 | Sut rydym yn gweithio, ein strategaeth a'n strwythur | 12 |
| Adran 3 | Ein rhaglenni grant | 18 |
| Adran 4 | Ein perfformiad gweithredol | 68 |
| Adran 5 | Ein perfformiad ariannol, gan gynnwys: | 82 |
| | Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol | 86 |
| | Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo | 89 |
| | Datganiad o Reolaeth fewnol | 93 |
| | Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol | 99 |
| | Cyfrifon Blynyddol | 101 |
| Adran 6 | Rhestr o ddyfarniadau dros £100,000 a wnaed yn y flwyddyn | 125 |
| Adran 7 | Ein Cefndir Statudol (dogfen ar wahân) | 134 |

# Cyflwyniad

y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn amlinellu cyflawniadau'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod 2005/06. Y llynedd, bu i ni adrodd ar uniad gweinyddol llwyddiannus y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, a ddaeth at ei gilydd i ffurfio'r Gronfa Loteri Fawr. Hyd nes bydd y ddeddfwriaeth i ffurfioli'r uniad gweinyddol hwn yn dod yn ddeddf, byddwn yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol ar wahân ar weithgareddau'r ddau gorff statudol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu datblygiad a pherfformiad y Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, gan gynnwys sut y mae'r adnoddau hynny oedd ar gael i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi'u defnyddio.

Mae nifer o ddatblygiadau allweddol wedi digwydd i'r Gronfa Loteri Fawr yn 2005/06 – paratoi ein cynllun strategol am y cyfnod hyd 2009, cynllunio a lansio ystod o raglenni newydd ledled y DU a gweithredu rhaglen newid fawr a ddyluniwyd i ddarparu effeithlonrwydd busnes.

Wrth barhau i integreiddio strwythurau'r ddwy gronfa etifeddiaeth ac i ddatblygu'n busnes newydd, rydym wedi defnyddio canlyniadau dau ymgynghoriad mawr ar draws y DU gyda'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddatblygu'r cynllun strategol ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr. Amlinellir y manylion yn rhan dau'r adroddiad hwn.

Yn ystod 2005/06, gwnaed ymdrech sylweddol i ddatblygu rhaglenni grant newydd sy'n adlewyrchu'r themâu a'r canlyniadau a ddaeth i'r amlwg yn ein hymgynghoriadau. Rydym wedi datblygu ymagwedd portffolio cymysg at ariannu, rhai strategol a rhai sy'n ymateb i'r galw. Rydym wedi cyflwyno adfer costau llawn ar gostau cyffredinol cyfreithlon ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a mwy o hyblygrwydd yn hyd ein hariannu.

Hefyd, rydym wedi datblygu strategaeth werthuso, ymchwilio a dysgu ar gyfer 2005 hyd 2009. Rydym wedi lansio 16 o raglenni sy'n ymateb i'r galw, gan gynnwys y rhaglenni Reaching Communities yn Lloegr, Pawb a'i Le yng Nghymru a rhaglenni Cronfa Pobl Ifanc yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar nifer o raglenni eraill a byddwn yn lansio 23 o rai ychwanegol yn 2006/07. Amlinellir manylion ein rhaglenni presennol a rhai newydd yn yr adroddiad hwn.

Ar yr un pryd, rydym hefyd wedi llwyddo i integreiddio ac ailstrwythuro'n swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi agor Canolfan Newcastle ac wedi ailffocysu'n presenoldeb rhanbarthol yn Lloegr, gyda chylch gorchwyl estynedig ar gyfer gwaith allgymorth a phartneriaeth a gwybodaeth ranbarthol. Mae disgwyl i Ganolfan Birmingham agor erbyn diwedd 2006. Bydd y ddwy ganolfan newydd yn Newcastle a Birmingham yn darparu'r rhan fwyaf o swyddogaethau rheoli grantiau yn Lloegr. Mae llawer o'r swyddogaethau sydd wedi'u lleoli yn Llundain ac yn hen Swyddfeydd Rhanbarthol Lloegr yn cael eu trosglwyddo gam wrth gam, a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yma wedi'i gwblhau yn ystod 2007.

Yn ystod 2005/06, bu i ni roi'r dyfarniadau terfynol o dan nifer o raglenni grant etifeddiaeth y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Yn 2005/06, trwy'r rhaglenni etifeddiaeth hyn a rhaglenni newydd y Gronfa Loteri Fawr, rydym wedi ymrwymo £297 miliwn o arian. Rydym wedi gweithio gyda'n prif bartneriaid a deiliaid grantiau i sicrhau bod yr arian a roddir yn cyrraedd buddiolwyr mor gyflym â phosibl; yn ystod y flwyddyn, rydym wedi talu £597 miliwn mewn grantiau.

# Cyflwyniad

Yn olaf, rydym wedi parhau i arwain y ffordd ar ddwyn yr agenda ar gyfer cydweithio, cyfranogiad y cyhoedd a hyrwyddo manteision y Loteri Genedlaethol, a bwysleisiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn 2003, yn eu blaen. Rydym wedi sefydlu'r fframwaith ar gyfer prif ganolfan ragoriaeth ac wedi ail-ddylunio'r wefan cyd-ddosbarthwyr, wedi cefnogi gwaith Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, yn cynnwys y cymhelliant tuag at frandio cyffredin, wedi lansio rhaglen (Miliynau'r Bobl) sy'n galluogi pobl i bleidleisio dros eu hoff brosiectau fel y'u gwelir ar y teledu ac wedi cynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau ar grantiau o dan ein Cronfa Pobl Ifanc.

Hoffem ddiolch i bawb fu'n rhan o gyflawniadau sylweddol y Gronfa Loteri Fawr eleni. Ni fyddent wedi digwydd heb arweinyddiaeth a chyfarwyddyd aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor a gwaith caled, proffesiynoldeb ac ymroddiad y staff, y bu hon yn flwyddyn o ansicrwydd personol sylweddol i lawer ohonynt.

Rydym o'r farn bod yr ariannwr newydd, gwahanol a gwell a addawyd y llynedd yn dechrau dod i'r amlwg; ariannwr mwy deallus a ddaw â gwelliannau gwirioneddol i gymunedau ac i fywydau pobl sydd fwyaf mewn angen.

**Syr Clive Booth**
Cadeirydd

**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr

12 Hydref 2006



# Adran Un

## Amdanom ni, ein fframwaith a'r hyn rydym yn ei wneud

### Ein hanes a'n fframwaith statudol

Ym mis Chwefror 2003 gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Gronfa Gymunedol (enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol) a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddod at ei gilydd i greu dosbarthwr Loteri newydd, gan adeiladu ar gryfderau'r ddau sefydliad. Ym mis Tachwedd 2003, penodwyd Stephen Dunmore yn Brif Weithredwr ar y ddau gorff a lluniodd dîm rheoli ar y cyd i arwain y dosbarthwr newydd. Gyda phenodi Cadeirydd a Bwrdd, cafodd y Gronfa Loteri Fawr ei chreu'n weinyddol ar 1 Mehefin 2004.

Rydym yn disgwyl i'r Gronfa Loteri Fawr ddechrau'n ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2006, yn amodol ar amserlen y Senedd. Mae'r Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr newydd yn debygol o gwrdd am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2006. Hyd hynny, bydd y ddau sefydliad 'etifeddiaeth' yn parhau i weithio fel corff sydd wedi'i uno'n weinyddol ac yn gosod y sylfeini ar gyfer y sefydliad newydd. Hyd oni fydd y ddeddfwriaeth wedi'i sefydlu, bydd pŵerau statudol y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn parhau i gael eu defnyddio a byddwn yn adrodd yn unigol ar waith, perfformiad a materion ariannol y ddau gorff. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Mae gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyfrifoldeb o fewn y Llywodraeth am bolisïau'r Loteri Genedlaethol ac mae'n gosod y polisi a'r fframwaith ariannol y mae'n rhaid i gyrff dosbarthu weithio o'u mewn. Ar hyn o bryd, mae 15 o gyrff dosbarthu annibynnol yn gyfrifol am roi grantiau'r Loteri.

Sefydlwyd y Gronfa Cyfleoedd Newydd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ym 1998. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn gorff cyhoeddus anadrannol DU eang, a reoleiddir yn unol â'r Datganiad Rheoli, Cyfarwyddiadau Ariannol a Chyfarwyddiadau Polisi a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

### Yr hyn rydym yn ei wneud – rhoi grantiau

Sefydlwyd y Gronfa Cyfleoedd Newydd i roi grantiau'r Loteri Genedlaethol i brosiectau addysg, iechyd a'r amgylchedd o dan fentrau a restrwyd gan y Llywodraeth.

Rydym yn cael Cyfarwyddiadau polisi gan y Llywodraeth sy'n diffinio ystod a gwerth ein rhaglenni grant. Amlinellir y Cyfarwyddiadau Polisi hyn yn adran 7 yr adroddiad blynyddol hwn.

Cyhoeddwyd cyfeiriadau polisi newydd yn 2005 ar gyfer y fenter grantiau trawsnewid, sydd bellach wedi'i sefydlu'n rhaglenni Creu Cof Byw a Miliynau'r Bobl.

Yn 2005, cytunodd y Llywodraeth hefyd gyda'r Gronfa Loteri Fawr ar gyfres o themâu a chanlyniadau strategol. Mae'r rhain yn llai rhagnodol na chyfeiriadau polisi blaenorol, sy'n ein galluogi i ddatblygu polisïau a rhaglenni mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol.

Mae ein rhaglenni ariannu newydd yn dilyn tair thema gyffredin sy'n ein galluogi i gefnogi ystod eang o brosiectau ar draws y DU:

- cefnogi dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd
- hyrwyddo diogelwch a chydlyniad cymunedol
- hyrwyddo lles.

At hyn, rydym wedi amlinellu nifer o ganlyniadau ar gyfer ein rhaglenni. Y canlyniadau – yr hyn fydd yn cael ei gyflawni gyda'n harian – yw canlyniadau ymgynghoriadau unigol ym mhob gwlad yn y DU. Felly, maent yn wahanol ym mhob gwlad, gan adlewyrchu'r heriau a'r gofynion unigryw yn Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ystod 2005/06 rydym wedi bod yn datblygu'r rhaglenni newydd sy'n tarddu o'r themâu a'r canlyniadau hyn.

Rydym wedi lansio nifer o raglenni gan gynnwys:

- Cyrraedd Cymunedau, Parks for People a Chwarae Plant yn Lloegr
- Y Gronfa Pobl Ifanc yn yr Alban
- Pawb a'i le a'r Gronfa Pobl Ifanc yng Nghymru
- Change UR Future yng Ngogledd Iwerddon

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar nifer o raglenni eraill a byddwn yn lansio 23 o raglenni eraill yn 2006/07.

Yn ogystal â datblygu rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr, rydym wedi parhau gyda gwaith ein rhaglenni etifeddiaeth trwy gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'n hymgeiswyr, deiliaid grantiau, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid. Yn ystod 2005/06, bu i ni roi'r dyfarniadau terfynol ar lawer o raglenni etifeddiaeth y Gronfa Cyfleoedd Newydd, gan gynnwys Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion, Gweithgareddau Positif ar gyfer Pobl Ifanc a Chyn-filwyr. Hefyd, bu i ni wneud y taliadau terfynol a chau nifer o raglenni, gan gynnwys rhaglenni Hyfforddi TGCh a Digido a rhaglen Rhwydwaith y Bobl.

Yn 2005/06, dyfarnwyd £297 miliwn. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod yr arian a roddir yn cyrraedd y buddiolwyr cyn gynted â phosibl; yn ystod y flwyddyn hon, bu i ni dalu £597 miliwn mewn grantiau.

Mae manylion ein holl raglenni ar gael yn adran tri'r adroddiad hwn.

## Ein hailstrwythuro

Y llynedd, bu i ni adrodd ar yr uniad gweinyddol llwyddiannus rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol. Yn ystod 2005/06 rydym wedi parhau gyda'r rhaglen o integreiddio ac ailstrwythuro i ddarparu arbedion a'r effeithlonrwydd disgwyliedig o'r uniad hwn.

Cafodd y swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Cymru eu hintegreiddio a'u hailstrwythuro'n llwyddiannus yn ystod 2004/05.

Yn Lloegr, rydym wedi gweithredu rhaglen newid fawr, yr "Adolygiad Strwythurol". Bu i ni edrych ar sut ac ymhle rydym am weinyddu'n gweithgareddau gwneud grantiau a swyddogaethau cefnogi corfforaethol yn Lloegr i gyflawni effeithlonrwydd gweithredol ac i wella gwasanaethau cwsmeriaid.

Bydd gweithgareddau asesu grantiau a rheoli grantiau yn Lloegr yn cael eu cyfuno mewn dwy ganolfan yn Newcastle a Birmingham. Byddwn yn cadw ac yn ehangu'n presenoldeb rhanbarthol i gynnal a datblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid lleol a gweithgareddau allgymorth. Bydd swyddogaethau cefnogi corfforaethol yn cael eu lleoli naill ai yn Llundain neu yng Nghanolfan Birmingham.

# Adran Un

Bu i ni ddechrau gweithredu'r penderfyniadau hyn yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Yn ystod 2005/06 bu i ni ymgynghori â'r ddau Undeb Llafur cydnabyddedig ynglŷn â cholli swyddi yn ein swyddfeydd rhanbarthol. Bu i ni recriwtio 87 o staff yn ein Canolfan yn Newcastle a symud i mewn i'n hadeilad newydd ym mis Mawrth 2006. Bydd y Ganolfan yn Birmingham yn agor yn ystod 2006/07.

## Ein Harian Loteri

Daw ein hincwm o'r Loteri Genedlaethol. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael 33.33 y cant o'r holl incwm a godir gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da. Buddsoddir yr incwm hwn yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), sydd o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rydym yn cael y llog a enillir ar ein balansau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cyfanswm cyllidebau grant o £2.2 biliwn ar gyfer rhaglenni newydd hyd 31 Mawrth 2009 yn seiliedig ar ragolygon arian fydd ar gael. Wrth osod y cyllidebau hyn, cymerodd y Bwrdd i ystyriaeth y risg y gallai ein hincwm ddisgyn, pe bai gwerthiant tocynnau'r Loteri Genedlaethol yn gostwng. At hyn, bydd y Loteri'n cyfrannu at gost Gemau Olympaidd 2012. Bu i ni hefyd ystyried effaith bosibl diwedd trwydded gyfredol y Loteri Genedlaethol yn 2009.

## Perthynas gyda rhanddeiliaid allweddol

Yn dilyn ymlaen o ymgynghoriadau eang a gynhaliwyd yn 2004, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi parhau i feithrin perthnasau gyda rhanddeiliaid allweddol. Rydym wedi trefnu nifer o gyfarfodydd i adolygu'n polisïau ariannu ac i adolygu'n hymroddiad i roi 60-70 y cant o'n harian i'r sector gwirfoddol a chymunedol. Yn Lloegr, bu i ni gynnal fforwm ar y cyd â'r ACEVO i ledaenu'n polisi adfer costau llawn ac i annog arianwyr eraill i fabwysiadu egwyddorion adfer costau llawn. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i fod yn sefydliad sy'n gwrando, gan ddefnyddio adborth i lunio'n polisïau, gweithdrefnau ac i ariannu rhaglenni.

## Ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

Ein cenhadaeth yn y Gronfa Loteri Fawr yw dod â gwelliannau gwirioneddol i gymunedau ac i fywydau'r bobl sydd fwyaf mewn angen.

Rydym wedi nodi saith o werthoedd sy'n tanategu'n holl waith, sef:

- Tegwch – gosod cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon ein gwaith.
- Hygyrchedd – ei gwneud yn haws i gyrchu'n harian a rhoi help i'r rheiny sy'n gwneud cais am grant a'r rheiny sy'n derbyn grantiau.
- Ffocws strategol – gweithio mewn partneriaeth ac ymuno â strategaethau presennol, datblygu rhaglenni sy'n ffocysu ar ganlyniadau a'r gwahaniaeth maent yn eu gwneud i gymunedau.
- Cynnwys pobl – cynnwys cymunedau lleol yn ein gwaith a gwneud yn siŵr bod y cyhoedd yn gwybod am ac yn malio am ein gwaith.

- **Arloesi** – adeiladu rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu a meddwl am ffyrdd newydd o wneud grantiau.
- **Galluogi** – gweithio gyda chymunedau, partneriaid ac arianwyr eraill i helpu i gyflawni newid parhaol.
- **Ychwanegol i'r Llywodraeth** – sicrhau bod ein harian ar wahân i arian y Llywodraeth a'i fod yn ychwanegu gwerth.

Rydym hefyd wedi ymgynghori'n eang â staff i osod cyfres o werthoedd mewnol: atebolrwydd, gwerthfawrogi pobl, gwaith tîm a rhagoriaeth gwasanaeth. Mae'r rhain yn dangos y math o gyflogwr mae'r Gronfa Loteri Fawr yn bwriadu bod a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan ein staff.

## Edrych tua'r dyfodol

Rydym yn edrych tua'r dyfodol ar nifer o ddatblygiadau sy'n effeithio ar ein hariannu a'r ffordd rydym wedi'n trefnu i'w ddosbarthu.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gronfa Loteri Fawr ei rhaglenni newydd ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn dosbarthu £2.2 biliwn rhwng 2006 a 2009. Rhennir y rhaglenni'n ddau faes eang: rhaglenni sy'n ymateb i angen a rhaglenni strategol. Mae'r rhaglenni sy'n ymateb i angen yn annog sefydliadau i ddod â'u syniadau eu hunain atom i'w hariannu. Mae'r rhaglenni strategol yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y canlyniadau y mae'r Gronfa Loteri Fawr am i'w harian eu cyflawni.

Yn ogystal â'r rhaglenni newydd, rydym wedi cyhoeddi ystod o fesurau i helpu cymunedau i gael arian oddi wrthym yn haws. Byddwn yn:

- cymryd ymagweddau gwahanol at ariannu, gydag o leiaf draean ein hincwm grant yn mynd at raglenni hygyrch sy'n ymateb i angen, sydd wedi'u rhagnodi'n ysgafn, gan gynnwys y cynllun Arian i Bawb estynedig
- mwy hyblyg o ran hyd ariannu, gan roi grantiau am hyd at bum mlynedd
- mabwysiadu'r egwyddor o adfer costau llawn drwy ganiatáu i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol adfer cost eu gorbenion dilys
- sicrhau bod 60-70 y cant o'n harian yn mynd i'r sector gwirfoddol a chymunedol
- ffocysu gwaith ein swyddfeydd rhanbarthol ar ddatblygu polisïau, gwybodaeth ranbarthol, allgymorth, gwaith partneriaeth a pherthnasau allanol
- sefydlu dwy ganolfan yn Newcastle a Birmingham ar gyfer Lloegr i sicrhau polisi ariannu cryf ac unedig
- gwneud arbedion effeithiolrwydd o 10-20 y cant (£6-£12 miliwn) ar gostau rhedeg y 2 sefydliad etifeddiaeth i'w rhoi yn ôl i mewn i ariannu prosiectau
- cyflwyno proses ymgeisio dau gam, lle bo'n briodol, i leihau'r baich gweinyddol ar ymgeiswyr.

Mae cynnwys y cyhoedd yn y Loteri Genedlaethol yn flaenoriaeth bwysig i'r Llywodraeth ac i ni. Rydym yn edrych ar ffyrdd newydd o gynnwys y cyhoedd wrth benderfynu i ble y dylai arian ar gyfer achosion da fynd.

# Adran Un



O dan y Gronfa Pobl Ifanc, bu i ni recriwtio pobl ifanc i eistedd ar bwyllgorau cenedlaethol a rhanbarthol i helpu gwneud penderfyniadau ariannu. Rydym wedi ymgynghori'n eang ar ein rhaglenni newydd, gan gynnwys comisiynu ymchwil ar sut y mae pobl sy'n chwarae'r Loteri yn meddwl y dylid gwario arian y Loteri.

At hyn, yn 2005, rydym wedi lansio'n rhaglen Miliynau'r Bobl, lle'r oedd gwylwyr teledu yn gallu pleidleisio dros eu hoff brosiect cymuned bach. Yn 2005, fe wnaethom ddyfarnu 50 o grantiau o £50,000 o dan y cynllun hwn a bu i ni lansio rhaglen i roi un grant mawr o hyd at £1.5 miliwn y bydd y cyhoedd yn pleidleisio arno.

Rydym yn ymroi i werthuso a dysgu, rhannu arfer da a dylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a lleol.

Lle bo'n briodol, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth ac yn ategu blaenoriaethau a rhaglenni'r Llywodraeth er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl gyda'n harian. Rydym wedi cadarnhau ein hymroddiad i helpu pobl a chymunedau mewn angen, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu bod rhaid i ni ariannu prosiectau allai fod yn amhoblogaidd gyda rhai pobl.

Yn bwysicaf oll, ni fydd y Gronfa Loteri Fawr yn Gronfa Gymunedol nac yn Gronfa Cyfleoedd Newydd. Bydd yn ariannwr newydd a gwahanol, nad yw'n ffocysu ar i bwy rydym yn rhoi'r arian (p'un ai sectorau penodol neu grwpiau blaenoriaeth) ond yn hytrach, ar ganlyniadau – yr hyn ydym yn ei ariannu a phwy sy'n elwa arno.



# Adran dau

## Sut rydym yn gweithio, ein strategaeth a'n strwythur

### Ein strategaeth

Bu'r blynyddoedd 2004-2006 yn rhai trawsnewidiol. Yn erbyn cefnlen o uno, ailstrwythuro, cyflwyno, cau rhaglenni presennol a datblygu rhaglenni newydd rydym wedi bod yn gosod sylfaen gadarn er mwyn i'r Gronfa Loteri Fawr ddod yn ariannwr newydd, gwahanol a gwell.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi sefydlu cynlluniau blynyddol yn hytrach na strategaeth fwy hirdymor. Yn ein cynllun corfforaethol 2005/06 bu i ni nodi'r heriau canlynol ar gyfer y flwyddyn:

- datblygu a lansio rhaglenni grant newydd sy'n bodloni'n prif themâu, canlyniadau a blaenoriaethau
- bodloni targedau cyflwyno pob rhaglen grant gyfredol, wrth ailstrwythuro swyddfeydd rhanbarthol Lloegr, ein trefniadau rheoli grantiau a'n gwasanaethau corfforaethol
- dylunio a datblygu model a phroses cynllunio busnes strategol a chorfforaethol ar gyfer 2006-09, gan gryfhau rheolaeth a gwella perfformiad y sefydliad newydd
- parhau i integreiddio'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, a gweithredu strategaethau a pholisïau cydlynol i gyflwyno ein busnes.

Bu i ni osod chwe amcan i ni'n hunain gyda chefnogaeth 23 o ddangoswyr perfformiad. Yn adran pedwar yr adroddiad hwn, rydym yn amlinellu sut rydym wedi perfformio yn erbyn yr amcanion hyn.

Gallwn bellach ystyried ein strategaeth ar gyfer y tymor hirach. Rydym yn cwblhau ein cynllun strategol am y cyfnod Ebrill 2006 i Fawrth 2009. Hwn fydd Cynllun Strategol cyntaf y Gronfa Loteri Fawr.

Bydd y Cynllun Strategol yn amlinellu pwy ydym ni, ble rydym ni ar hyn o bryd a ble rydym eisiau bod yn 2009. Bydd yn cynnwys y canlynol.

- Ein cenhadaeth, gwerthoedd a fframwaith deddfwriaethol. Mae'r rhain yn disgrifio pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei gynrychioli. Mae'n ein gwahaniaethu oddi wrth gyrff eraill sy'n gwneud grantiau.
- Ein prif gyraeddiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n dangos ble rydym ni ar ddechrau'r cyfnod Cynllun Strategol hwn.
- Ein hymgynghoriadau, cyfeiriadau polisi newydd a'r datganiad cyrchfan, sy'n amlinellu ymhle rydym yn eisiau bod yn 2009.
- Ein fframweithiau ariannu a rhaglenni newydd sy'n esbonio'r gwahaniaeth yr hoffem ei wneud i gymunedau ac i fywydau pobl sydd fwyaf mewn angen.
- Ein cynllun corfforaethol blynyddol sy'n adlewyrchu'n blaenoriaethau a'n hadnoddau ar gyfer pob blwyddyn i'n symud ymlaen tuag at ein goliau ar gyfer 2009.

Bydd y cynllun corfforaethol blynyddol yn cynnwys ein hamcanion corfforaethol, dangosyddion perfformiad allweddol a'r cyllidebau grant a gweithredu ar gyfer y flwyddyn honno.

Caiff ein perfformiad yn erbyn yr amcanion a'r targedau hyn eu monitro a'u hadrodd yn ôl i'r Bwrdd bob tri mis a byddant yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Bydd y Cynllun Strategol yn cael ei gyhoeddi mewn copi caled a bydd hefyd ar gael ar wefan y Gronfa Loteri Fawr yn www.cronfaloterifawr.org.uk

## Sut y cawn ein rhedeg

### Y Bwrdd

Mae gennym Fwrdd unigol ar gyfer y ddau sefydliad a chanddo 17 o aelodau (gan gynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd, tri aelod yr un o Ogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru a chwe aelod cyffredinol). Bu pob aelod yn gwasanaethu drwy gydol y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad a pherfformiad strategol cyffredinol y Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys ein hatebolrwydd i'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill. Er mwyn bodloni ei hatebolrwydd, mae gan y Bwrdd bwyllgorau (y Pwyllgor Adnoddau, y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol), paneli cynghori (y Fforwm Cydraddoldeb a'r Panel Gwerthuso a Dysgu) a phwyllgorau ar gyfer cynghori a gwneud penderfyniadau ariannu ar gyfer rhaglenni penodol. Rhestrir yr aelodau a'u cyfrifoldebau yn llawn isod.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob yn ail fis; mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli'n mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod bob tri mis. Mae'n cymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, ardystio'r gofrestr risg ac yn craffu ar ganlyniadau adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor Adnoddau'n cyfarfod bob tri mis. Mae'n cymeradwyo'r gyllideb flynyddol ac yn goruchwylio gwariant. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad a chyflogau'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli.



Syr Clive Booth
Cadeirydd
Cyd-gadeirydd, Fforwm y Loteri Fawr/Pwyllgor Comisiwn y Mileniwm
Cadeirydd, Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol



Y Fonesig Valerie Strachan
Is-gadeirydd
Cadeirydd, Pwyllgor Grantiau Strategol



Dr Samuel Burnside
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd, Pwyllgor Active Lifestyles Gogledd Iwerddon



David Campbell CBE
Aelod yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Cronfa Dir yr Alban

# Adran dau



**Paul Cavanagh**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd, Pwyllgor Cronfa Pobl Ifanc Gogeldd Iwerddon



**John Gartside OBE**
Aelod Lloegr
Douglas Graham
Aelod yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Active Futures yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg



**Tom Davies**
Aelod Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon Cymru



**Taha Idris**
Aelod Cymru
Cadeirydd, Pwyllgor Mentro Allan Cymru



**Roland Doven MBE**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Fforwm Cydraddoldeb



**Dugald Mackie**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon Lloegr
Cadeirydd, Pwyllgor Adnoddau



**Yr Athro Breidge Gadd CBE**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon Gogledd Iwerddon
Cadeirydd, Pwyllgor Rhaglen Ariannu Gwirfoddol a Chymunedol Gogledd Iwerddon



**John Naylor OBE – Wedi ymddeol ar 31 Mawrth 2006**
Aelod yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Developing Communities yr Alban
Cadeirydd, Panel Ymgynghorol Gwerthuso a Dysgu (hyd mis Mawrth 2006)
Cadeirydd, Pwyllgor Cronfa Pobl Ifanc yr Alban



**Esther O'Callaghan**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Grantiau Cenedlaethol Cronfa Pobl Ifanc Lloegr



**Anna Southall**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Creu Cof Byw



**Huw Vaughan Thomas**
Aelod Cymru
Cadeirydd, Pwyllgor Rhaglen Ariannu Gwirfoddol a Chymunedol Cymru
Cadeirydd, Pwyllgor Cronfa Pobl Ifanc Cymru
Cadeirydd, Panel Gwerthuso a Dysgu (o fis Mawrth 2006)



**Diana Whitworth**
Aelod Cyffredinol

# Adran dau

**Prif Weithredwr**
Stephen Dunmore

**Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol**
Mark Cooke

**Cyfarwyddwr Cymru**
Ceri Doyle

**Cyfarwyddwr yr Alban**
Dharmendra Kanani

**Cyfarwyddwr, Gweithrediad-au**
Adrienne Kelbie

**Cyfarwyddwr, Cynllunio a Pherfformiad**
Gerald Oppenheim

**Cyfarwyddwr, Polisi a Chysylltiadau Allanol**
Vanessa Potter

**Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon**
Walter Rader

## Yr Uwch Dîm Rheoli

Caiff y Prif Weithredwr ei benodi gan y Bwrdd ac ef yw'r Swyddog Cyfrifo hefyd. Mae'n cadeirio'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n cefnogi'r Bwrdd gyda rheolaeth strategol y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n ystyried materion polisi a materion strategol a gweithredol allweddol sy'n galw am gymeradwyaeth y Bwrdd a'i brif bwyllgorau. Yn ogystal â hyn, mae'r Uwch Dîm Rheoli'n cynnal trosolwg o weithrediadau'r sefydliad o ddydd i ddydd.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n cynnwys y Prif Weithredwr a saith Cyfarwyddwr. Nodir cylch gwaith pob Cyfarwyddwr yn y siart ar y chwith.

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr ddau Fwrdd Rheoli (y Bwrdd Rheoli Sefydliadol a'r Bwrdd Rhaglen Grant) sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau ar draws Cyfarwyddiaethau, gan wneud argymhellion i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd a gweithredu penderfyniadau a wneir ganddynt. Maent yn atebol i'r Uwch Dîm Rheoli.

## Cofrestr Buddiannau

Mae'n rhaid i holl aelodau Bwrdd a phwyllgorau'r Gronfa Loteri Fawr, ei aseswyr ac aelodau paneli cynghori ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol o dan ein cod moeseg. Mae'r cod hwn yn cydymffurfio â chod arferion Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Bwrdd cyrff cyhoeddus.

Os yw'r Bwrdd neu unrhyw bwyllgor yn gwneud penderfyniad y gellir ei ystyried yn rhesymol yn wrthdaro buddiannau, yn bennaf mewn perthynas â rhoi grantiau i sefydliadau ond hefyd mewn perthynas ag unrhyw berthnasau masnachol, mae'r Cadeirydd yn gwneud yn siŵr ar ddechrau'r cyfarfod bod y rhain yn cael eu datgan a bod yr aelod yn gadael y cyfarfod tra bo'r eitem berthnasol yn cael ei thrafod.

Mae'n rhaid i'r holl staff lenwi datganiad blynyddol yn amlinellu unrhyw fuddiannau perthnasol. Mae'r hyfforddiant a roddir yn sicrhau bod yr holl staff yn gwybod bod rhaid iddynt gyflwyno unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi yn eu gwaith beunyddiol.

Gall y cyhoedd edrych ar y gofrestr buddiannau a ddatganwyd a datganiadau lletygarwch drwy ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad. Cyhoeddir datganiadau buddiannau aelodau'r Bwrdd ar wefan y Gronfa Loteri Fawr.